**Cyfarfod Grŵp Trawsbleidiol y Celfyddydau ac Iechyd 4 Chwefror 2020 12.30, Ystafell Gynadledda A, Tŷ Hywel, Bae Caerdydd.**

**Yn bresennol**
Jayne Bryant, AC a Chadeirydd
Maddie Rees, Pennaeth Digidol ac Ymgyrchoedd
Sally Lewis, Cyngor Celfyddydau Cymru
Nesta Lloyd-Jones, Conffederasiwn GIG Cymru
Callum Hughes, Conffederasiwn GIG Cymru
Paul Lewis, CLlLC
Tim Jenkins, CLlLC
Angela Rogers, WAHWN
Sarah Goodey, Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan
Prue Thimbleby, Bwrdd Iechyd Bae Abertawe
Nicola Llewelyn, Bwrdd Iechyd Hywel Dda
Amy Lewis, Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf
Freda Lacy, Bwrdd Addysgu Powys
Gill Windle, Prifysgol Bangor
Simon Joslyn, Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro
Andrea Davies, BCUHB
Kelly Barr, Age Cymru
Abu Askira, Gofal Cymdeithasol Cymru
Kathryn Algar-Skaife, Prifysgol Bangor
Helen Williams, Cyngor Celfyddydau Cymru (gwneud y cofnodion)

**Ymddiheuriadau**
Rob Ashelford, Y LAB
Rhian Webber, Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf
Sian Tomos, Cyngor Celfyddydau Cymru
Llyr Gruffyd, Aelod Cynulliad

**Croeso a chyflwyniadau gan Jayne Bryant (JB) AC**
Croesawodd JB bawb i'r cyfarfod a diolchodd iddynt am fod yn bresennol.

**Cofnodion y cyfarfod diwethaf 18 Medi 2019**
Cytunodd y Grŵp fod cofnodion y cyfarfod diwethaf yn gywir.

**Diweddariad Partneriaid**
Gofynnodd y Cadeirydd a oedd unrhyw ddiweddariadau pellach i'w nodi heblaw'r rhai a rannwyd eisoes gyda'r grŵp?

Dywedodd Nesta Lloyd-Jones y byddai Conffederasiwn y GIG yn cyhoeddi sesiwn friffio ar Blant a Phobl Ifanc ddydd Gwener yr wythnos hon ac y bydd yn lansio podlediad gyda Phil George, Cadeirydd Cyngor Celfyddydau Cymru. Pe bai aelodau am gyfrannu eu newyddion ar y pwnc, a allent roi gwybod i Helen Williams.

Dywedodd Prue Thimbleby y byddai Bwrdd Iechyd Bae Abertawe yn darparu cyflwyniad ar eu gwaith stori cleifion yng Nghymru i'r Adran Iechyd yn Llundain ar 6 Chwefror.

**Sut y gall y celfyddydau gefnogi gofal cymdeithasol – Dwy ffilm fer a gyflwynwyd ar ran WAHWN**
Cyflwynodd Angela Rogers y ffilmiau i'r Grŵp, y ffilm gyntaf oedd Creative Care Homes, prosiect Gwasanaeth Celfyddydau Cyngor Sir Dinbych. Amlygodd y ffilm sut

mae'r celfyddydau'n cefnogi gofal cymdeithasol mewn cartrefi gofal gyda thystiolaeth glir o'r buddion a ddangosir. Nododd SL fod Sir Ddinbych yn rhagweithiol iawn ynghylch y fenter hon ac mae'r cysyniad o fudd cynyddol yn yr awdurdodau lleol eraill.

Roedd yr ail ffilm a ddangoswyd yn seiliedig ar cARTrefu, rhan o raglen cARTrefu AGE Cymru a oedd unwaith eto yn dangos y ffilm hynod lwyddiannus ynghylch gweithio mewn cartrefi gofal a'r buddion i'r preswylwyr.

**Astudiaeth Achos cARTrefu**
Rhoddodd Kelly Barr, Rheolwr Rhaglen y Celfyddydau a Chreadigrwydd, AGE Cymru, gyflwyniad o'r enw "Creu artistiaid preswyl – Rhaglen gyfranogi a mentora genedlaethol ar gyfer y celfyddydau gofal" i'r Grŵp. Gwnaed llawer o ymchwil ar gyfer y rhaglen a chasglwyd tystiolaeth gadarn am lwyddiant y gwaith. Nododd Kathryn Algar-Skaife, Prifysgol Bangor, fod y prosiect yn cynnwys gweithio tuag at yr amcanion o fewn Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a'u bod yn parhau i weithio gyda cARTrefu i edrych ar y nodweddion o ymgorffori'r gwaith hwn yn y sector gofal cymdeithasol.

Teimlwyd bod rhai rhwystrau o ran cael mynediad i rai cartrefi gofal er mwyn lansio'r math hwn o brosiect. Mynegwyd peth anhawster wrth drosglwyddo syniadau i'r cartrefi gofal er gwaethaf ceisio cael y bobl iawn i gymryd rhan.

**Codi Ymwybyddiaeth – Cydlynu ein dull o gyfathrebu ar effaith y gwaith hwn**
Dywedodd Nesta Lloyd-Jones fod Conffederasiwn y GIG heddiw yn rhannu astudiaeth achos o'r enw "Ymgysylltu â'r celfyddydau i wella iechyd a lles mewn lleoliadau gofal cymdeithasol".

**Unrhyw fater arall**
Dywedodd Angela Rogers wrth y Grŵp y byddai Cynhadledd Conffederasiwn y GIG yn cael ei chynnal yfory yn Neuadd y Ddinas, Caerdydd.

Dywedodd Sally Lewis y byddai cynhadledd Cyngor Celfyddydau Cymru yn cael ei chynnal ym mis Medi 2020 ac y byddai'r pwyslais ar y Celfyddydau ac Iechyd Meddwl.

Dywedodd Simone Joslyn y byddai'r Sefydliad Iechyd Meddwl yn cynnal digwyddiad Celfyddydau ac Iechyd Meddwl yng Nghaerdydd ar 10 Hydref 2020.

Nododd Freda Lacy y byddai Bwrdd Addysgu Powys yn ffurfio rhwydwaith eco-therapi a fydd yn canolbwyntio ar y celfyddydau a therapi gwyrdd ac roedd cryn awydd am hyn. Hefyd roedd prosiectau ym Mhowys a ariannwyd gan y Loteri Fawr yn cynnwys artistiaid yn mynd i mewn i gartrefi pobl i ddysgu'r celfyddydau ac roedd hyn hefyd yn cyflymu.

**Themâu'r cyfarfodydd nesaf:** Dywedodd SL mai "Rhagnodi Cymdeithasol" fyddai thema'r cyfarfod nesaf.

**Dyddiad y cyfarfodydd nesaf:** 13 Mai 2020 a 15 Gorffennaf 2020 (Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol).